# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 15 Gorffennaf 2009

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys

2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

**Nick Ramsay (Mynwy):** Er mis Mai 2007, faint mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wario ar ymweliadau tramor ac a allech ddarparu manylion imi am i) lleoliad; ii) teithwyr; iii) cynhaliaeth; iv) llety; a v) costau ychwanegol? (WAQ54516)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Ers mis Mai 2007 mae £109,911 wedi'i wario ar ymweliadau tramor. Dangosir y wybodaeth sydd gennym yn y tabl canlynol. Rydym yn cadw data ar gyfanswm y costau, nid ar y dadansoddiad manwl y gofynnwyd amdano.

**Ymweliadau Tramor - Mai 2007 i Fehefin 2009**

| Gweinidog | Y Cyrchfan | | Rheswm dros yr Ymweliad | Swyddogion a aeth hefyd | Cost Amcangyfrifedig |
|---|---|---|---|---|---|
| **Prif Weinidog** Rhodri Morgan | Brwsel | Medi-2007 | Fforwm Cydlyniant yr UE | Ysgrifennydd Preifat a Swyddog Polisi | £1,263 |
| | Iwerddon | Chwe-2008 | Cyfarfod Y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig | Ysgrifennydd Preifat | £350 |
| | Brwsel | Chwe-2008 | Dathliad Dydd Gŵyl Dewi Brwsel | Ysgrifennydd Preifat | £896 |
| | Tsieina | Maw-2008 | Ymweliad Gweinidogol | Ysgrifennydd Preifat | £7,104 |
| | UDA | Medi-2008 | Cwpan Ryder - Kentucky | Ysgrifennydd Preifat a'r Dirprwy Brif Weinidog | £6827 |
| | Y Swistir | Hyd-2008 | Ymweliad ag Ystafell Reoli LHC | Ysgrifennydd Preifat | £520 |
| | Brwsel/Paris | Chwef-2009 | Derbyniad Dydd Gŵyl Dewi, Brwsel<br>Cyfarfod â'r Llysgennad Prydeinig ym Mharis a gwestai yng ngêm rygbi Ffrainc v Cymru | Ysgrifennydd Preifat | £2,980 |
| | UDA/Washington | Maw-2009 | Y Lansiad Smithsonian | Ysgrifennydd Preifat | £10,107 |
| | Milan | Mai-2009 | Pwyllgor y Rhanbarthau Ewropeaidd | Ysgrifennydd Preifat | £1,704 |
| | UDA/Washington | Meh-2009 | Yr Wythnos Smithsonian | Nid yw'r Wybodaeth na'r Gost lawn ar gael hyd yma | |
| | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth** Ieuan Wyn Jones | Brwsel | Gorff-2007 | Dathlu 90 mlynedd ers Brwydr Paschendaele | Ysgrifennydd Preifat | £1,158 |
| | Brwsel | Medi-2007 | Fforwm Cydlyniant yr UE | Ysgrifennydd Preifat a Swyddog Polisi | £1,263 |
| | India | Tach-2007 | Cenhadaeth Fasnach | Ysgrifennydd Preifat a 5 Swyddog Polisi | £14,530 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Iwerddon | Chwe-2008 | Y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig | dd/g | £171 |
| | Efrog Newydd a Boston | Chwe-2008 | Cynnwys Gweinidogion yn Wythnos Cymru | Ysgrifennydd Preifat a Swyddog y Wasg | £19,425 |
| | UDA | Medi-2008 | Cwpan Ryder - Kentucky | Ysgrifennydd Preifat a'r Prif Weinidog | £6827 |
| | Brwsel | Chwef-2009 | Cyfarfod â Chyfarwyddwr Cyffredinol Comisiwn yr UE | Ysgrifennydd Preifat | £419 |
| | Paris | Chwef-2009 | Cyfarfodydd, a Gwestai yng ngêm Rygbi Ffrainc v Cymru | dd/g | £497 |
| | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** Edwina Hart | Brwsel | Gorff-2007 | Dathlu 90 mlynedd ers Brwydr Paschendaele | dd/g | £630 |
| **is-gyfanswm** | | | | | **£630** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus** Andrew Davies | Barcelona - Sbaen | Tach-2007 | Cynhadledd REGLEG | Ysgrifennydd Preifat | £1,096 |
| | Iwerddon | Maw-2008 | Gêm Rygbi Cymru v Iwerddon - gwestai Noel Dempsey, y Gweinidog dros Drafnidiaeth | dd/g | £295 |
| | Barcelona - Sbaen | Ebr-2009 | Cyfarfodydd â Gweinidogion Llywodraeth Catalonia | Ysgrifennydd Preifat | £1,025 |
| | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai** Jane Davidson | Brwsel | Rhag-2007 | Cyfarfod Cyngor yr UE | Ysgrifennydd Preifat | £1,200 |
| | Monaco | Chwe-2008 | Cyflwyniad i NRG4SD Rhwydwaith y Llywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygu Cynaliadwy | Ysgrifennydd Preifat | £598 |
| | Brwsel | Maw-2008 | Cyfarfod Cyngor yr UE | Ysgrifennydd Preifat | £1,160 |
| | Brwsel | Hyd 2008 | Newid yn yr Hinsawdd - yr Wythnos Ewropeaidd | Swyddog Polisi | £894 |
| | Gwlad Pwyl/Poznan | Rhag-2008 | Uwchgynhadledd yr Arweinwyr Hinsawdd | Swyddog Polisi | £1,941 |
| | Brwsel | Maw-2009 | Cyngor yr Amgylchedd | Ysgrifennydd Preifat | £1,186 |
| | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau** Jane Hutt | Brwsel | Maw-2008 | Mynd i gyfarfod EARALL | Ysgrifennydd Preifat | £1,708 |
| | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y Gweinidog dros Dreftadaeth** Rhodri Glyn Thomas | Barcelona - Sbaen | Tach-2007 | Cynhadledd Twristiaeth Ddiwylliannol | Ysgrifennydd Preifat | £444 |
| | Brwsel | Chwe-2008 | Cynhadledd Amlieithrwydd | dd/g | £445 |
| | Brwsel | Meh-2008 | Lansio Rhwydwaith ar gyfer Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol | Ysgrifennydd Preifat | £1,179 |
| | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y Gweinidog dros Dreftadaeth** Alun Ffred Jones | Brwsel | Tach-2008 | Cyngor Diwylliant yr UE | Ysgrifennydd Preifat | £1,335 |
| | Fenis | Meh-2009 | ‘Arddangosfa Cymru’ Agored yn Biennale Celfyddyd Fenis | Nid yw’r Wybodaeth na’r Gost lawn ar gael hyd yma | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| **Y Gweinidog dros Faterion Gwledig** Elin Jones | Brwsel | Tach-2007 | Ymweliad y Cyngor Amaethyddiaeth | Ysgrifennydd Preifat | £872 |
| | Dubai | Chwe-2008 | Arddangosfa Sioe Gulfood | Ysgrifennydd Preifat | £5,910 |
| | Lwcsemb wrg | Meh-2008 | Cyngor Amaethyddiaeth | Ysgrifennydd Preifat | £1,298 |
| | Brwsel | Tach-2008 | Y Cyngor Amaethyddiaeth Ewropeaidd | Ysgrifennydd Preifat a Swyddog Polisi | £2,923 |
| | Brwsel | Ion-2009 | Cyfarfod â Chomisiynydd Vassilou | Ysgrifennydd Preifat | £1,033 |
| | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol** Brian Gibbons | Dulyn - Iwerddon | Chwe-2008 | Cyfarfod Y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig | dd/g | £425 |
| | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y Cwnsler Cyffredinol** Carwyn Jones | Hong Kong | Ebr-2009 | Cynhadledd Cyfraith y Gymanwlad | Ysgrifennydd Preifat | £7,167 |
| | | | | | |

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am barhau'r grant ysgolion bach ac am werth ysgolion bach i'r gymuned? (WAQ54538)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Yn Cymru'n Un, gwnaethom ymrwymo i barhau â'r broses o ariannu ysgolion bach ac ysgolion gwledig, ac rydym wedi cyflawni'r ymrwymiad hwn. Yn 2009/10 mae cyfanswm o £4.1 miliwn eto ar gael i awdurdodau lleol er mwyn cefnogi cydweithio, penaethiaid sy'n addysgu ac i hyrwyddo ffocws cymunedol ysgolion bach. Mater i awdurdodau lleol yw penderfynu ar batrwm yr ysgolion i wasanaethu pob un o'u cymunedau, a maint priodol yr ysgol sydd ei hangen ym mhob ardal.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Faint o farwolaethau a oedd yn gysylltiedig ag alcohol a gafwyd yng Nghymru ymhob blwyddyn er 1999 ac a wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad fesul ardal BILl yn ogystal â phroffil oedran o'r rhai a fu farw? (WAQ54545)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Gellir canfod y diffiniad o farwolaethau a oedd yn gysylltiedig ag alcohol ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn:

www.statistics.gov.uk/StatBase/Product.asp?vlnk=14496&Pos=&ColRank=1&Rank=272

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y marwolaethau a oedd yn gysylltiedig ag alcohol fesul grwpiau oedran yng Nghymru ers 1999.

**Marwolaethau a oedd yn gysylltiedig ag alcohol ymysg trigolion cyffredin Cymru, fesul grŵp oedran, 1999 i 2007.**

| Grŵp oedran | 1999 | 2000 | 2001 | 2002 | 2003 | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **<15** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| **15-44** | 67 | 65 | 76 | 68 | 79 | 75 | 68 | 67 | 101 |
| **45-74** | 222 | 246 | 276 | 254 | 283 | 302 | 302 | 329 | 333 |
| **75+** | 30 | 28 | 33 | 41 | 52 | 39 | 37 | 34 | 42 |
| **Pawb** | 319 | 339 | 385 | 363 | 414 | 416 | 407 | 430 | 477 |

Darperir data pellach fesul ardal BILl ar wefan y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (NPHS) yn:
www.howis.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=719&pid=28657

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Faint o bobl sydd wedi mynd i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys gyda chyflyrau sy'n gysylltiedig ag alcohol er 1999 ac a wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad fesul ardal BILl? (WAQ54546)

**Edwina Hart:** Ers mis Ebrill 2009, casglwyd data ar b'un a yw achosion mewn unedau Damweiniau ac Achosion Brys yn gysylltiedig ag alcohol ar gyfer Set Ddata yr Adran Achosion Brys. Nid oes data wedi'i gyhoeddi o'r ffynhonnell hon hyd yma.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Faint o bobl sydd wedi mynd i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ag anafiadau o ganlyniad i drais domestig ymhob blwyddyn er 1999 ac a wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad fesul ardal BILl? (WAQ54547)

**Edwina Hart:** Ni chesglir data yn rheolaidd ar hyn o bryd ond mae gweithred yn fersiwn ddrafft ein cynllun gweithredu strategol sy'n nodi, 'Sicrhau bod gan Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys systemau gwybodaeth a all nodi unigolion a gaiff eu derbyn i'r ysbyty dro ar ôl tro, ac yn arbennig unigolion a gaiff eu derbyn dro ar ôl tro ac sydd wedi'u hanafu. Bydd hyn yn caniatáu i atgyfeiriadau priodol ac amserol gael eu gwneud.'

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad o'r defnydd o rifau ffôn 0844 / 0845 gan bractisau meddygon teulu? (WAQ54548)

**Edwina Hart:** Yn ddiweddar derbyniais bapur briffio gan fy swyddogion yn ymwneud â'r dewisiadau posibl, ond ar ôl rhoi ystyriaeth fanwl iddo, gofynnais i swyddogion gyflawni gwaith pellach cyn i mi benderfynu pa gamau rwyf am eu cymryd. Gobeithiaf fod mewn sefyllfa i wneud penderfyniad ar y ffordd ymlaen yn fuan iawn.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am drin cleifion glawcoma yn y gymuned? (WAQ54549)

**Edwina Hart:** Ar 24 Mehefin cyhoeddais gynllun peilot y ganolfan ddiagnostig offthalmig a fyddai'n gwerthuso dichonoldeb y prosesau diagnosio a monitro glawcoma yn y gymuned. Mae dyddiadau peilot a dyddiadau agor y clinigau dal yn berthnasol.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y contract optometreg newydd? (WAQ54550)

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Pryd bydd y contract optometreg newydd yn barod i'w gyflwyno? (WAQ54551)

**Edwina Hart:** Daeth adolygiad o'r ddarpariaeth gofal llygaid yng Nghymru i gasgliad y dylid cyflwyno llwybr claf gwell. Cytunwyd ar hyn gydag Optometreg Cymru. Mae'r anawsterau economaidd presennol wedi cael effaith andwyol ar weithredu'r cynllun. Nid wyf wedi penderfynu eto pryd y caiff y contract ei gyflwyno.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad, fesul lleoliad, yn dangos lle mae Athletau Cymru yn darparu rhaglenni cefnogi ar gyfer athletwyr o Gymru ar hyn o bryd? (WAQ54524)

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones):** Mae'r Cyngor Chwaraeon yn gweithio'n agos gydag Athletau Cymru i roi cymorth i athletwyr ledled Cymru.

Un enghraifft yw'r rhaglen Talent Cymru a anelir at athletwyr rhwng 14 a 19 oed. Mae'r cynllun hwn yn darparu cymorth ariannol a chymorth arall i athletwyr sydd â'r potensial i fodloni meini prawf UK Pathway neu Elite Cymru yn ôl Cyrff Llywodraethu Cymru, Athletau Cymru yn yr achos hwn.

Mae Athletau Cymru hefyd yn cyflogi nifer o hyfforddwyr arbenigol i weithio gydag athletwyr perfformiad uchel ac maent wedi sefydlu Canolfannau Datblygu Rhanbarthol yn Abertawe, Glannau Dyfrdwy a Chaerdydd. Cynhelir cyfres o weithdai seicoleg hefyd yng Nghaerdydd, yn Abertawe ac yng Ngogledd Cymru a fydd yn dechrau ym mis Awst. At hynny, drwy Sefydliad Chwaraeon Rhanbarthol Gogledd Cymru, gall athletwyr penodol wneud defnydd o wasanaethau ffisiotherapi yn Llanrwst a Wrecsam.

**Mae'r rhestr isod yn rhoi manylion am yr athletwyr sy'n derbyn cymorth gan Talent Cymru.**

| Enw | Camp | Oedran | Grŵp Oedran cyfredol a faint o flynyddoedd ar y cynllun | **Lleoliad** |
|---|---|---|---|---|
| Lauren Bell | 800m/1500m | 14 | Dan 15 (2il) | **Abergwaun** |
| Daniel Chesworth | 800m/1500m | 15 | Dan 17 (1af) | **Casnewydd** |
| Antonio Cirillo | Ras Gerdded 10k/20k | 18 | Dan 20 (2il) | **Abertawe** |
| Sarah Dacey | Ras Glwydi 400m | 18 | Dan 20 (2il) | **Abertawe** |
| James Gardner | Naid Hir | 17 | Dan 20 (1af) | **Nantwich** |
| Dewi Griffiths | 5000m/ 10,000m | 17 | Dan 20 (2il) | **Caerfyrddin** |
| Stephen Guest | Naid Bolyn | 15 | Dan 17 (1af) | **Pen-y-bont ar Ogwr** |
| Christina Hughes | Naid Bolyn | 17 | Dan 20 (1af) | **Glannau Dyfrdwy** |
| Rachel Johncock | 100/200m | 15 | Dan 17 (1af) | **Bae Colwyn** |
| R Llewellyn | Naid Bolyn | 15 | Dan 17 (1af) | **Pen-y-bont ar Ogwr** |
| Alex Obiako | Naid Driphlyg | 18 | Dan 20 (2il) | **Caerdydd** |
| Sara Otung | Heptathalon/ Ras Glwydi 80m | 15 | Dan 17 (1af) | **Pontypridd** |
| Stephanie Owens | Taflu Morthwyl | 19 | Dan 20 (2il) | **Glannau Dyfrdwy** |
| Megan Rogers | Heptathalon/ Ras Glwydi 300m/Ras Glwydi 400m | 16 | Dan 17 (2il) | **Wrecsam** |
| Sian Swanson | Naid Uchel | 16 | Dan 17 (2il) | **Y Drenewydd** |
| Hannah Thomas | 100m/200m | 16 | Dan 17 (2il) | **Wrecsam** |
| Toni Wells | Taflu Morthwyl | 15 | Dan 17 (2il) | **Crosskeys** |
| David Westbury | Ras Ffos a Pherth 3k | 19 | Dan 23 (1af) | **Derby** |
| Rhiannon Yates | Naid Hir | 17 | Dan 20 (2il) | **Casnewydd** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Tesni Ward | Taflu Pwysau/ Disgen/ Gwaywffon | 17 | Dan 20 (1af) | **Mansfield** |
| Kate Yhnell | Taflu Morthwyl | 18 | Dan 20 (2il) | **Caerloyw** |

| Enw | Camp | Oedran | Grŵp Oedran cyfredol | Lleoliad |
|---|---|---|---|---|
| Tom Knight | 100m/200m | 16 | Dan 20 (1af) | **Tonypandy** |
| Michael Payne | Naid Hir | 15 | Dan 17 (1af) | **Casnewydd** |
| Mica Moore | 100m | 16 | Dan 17 (2il) | **Casnewydd** |
| Tom Miller | 400m | 20 | Dan 23 (1af) | **Caerdydd** |
| Rhys L Williams | Ras Glwydi 100m | 15 | Dan 17 (1af) | **Pontypridd** |